

Gwenno Hughes



Enw: Gwenno Hughes

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Geni ym Mangor, magu yng Nghaeathro.

Ble aethoch chi i'r ysgol? Ysgol gynradd Carmel ac yna Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Hoffi criw ffrindiau. Casáu colli bws, yn y bore, pan oedd hi'n stido bwrw. 'Mynadd!

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny? Un o Charlie's Angels! (Ditectif)

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn? Llyfr Mawr y Plant.

Beth yw eich diddordebau? Cerdded, nofio, darllen, mynd i'r theatr, gwyllo cyfresi drama, ioga, teithio...

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Cerdded y ci, peth cyntaf yn y bore, ar ddiwrnod o haf, pan mae hi'n dawel braf.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Pobol frwnt.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?

Pan oeddwn i yn yr ysgol. Dwi wedi mwynhau 'sgwennu ers pan oeddwn i'n ddim o beth.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Dwi'n cael syniadau o bobman, yn enwedig pan dwi yn y bath!

Oes yna themâu arbennig sy'n apelio atoch? Mae o'n newid yn gyson.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Darllenwch, darllenwch, darllenwch.

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?

Y peth gorau ydi derbyn y llyfr o'r wasg. Y peth gwaethaf ydi dedlein, a phoeni nag ydych chi'n mynd i'w fwrw. Panics!

Cwestiynau Cyflym:

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

Llyfr Mawr y Plant

Hoff gymeriad o lyfr?

Hagrid, o gyfres Harry Potter

Hoff le? Tre Ceiri

Hoff fwyd? Satsumas

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Motherland

Hoff air? Hiraeth

Superpower o ddewis?

Gallu troi'r cloc yn ôl

Hoff rhwydwaith cyfryngau

cymdeithasol? Facebook

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Ŵyn bach cyntaf y Gwanwyn

Swydd ddelfrydol tasech chi dim yn awdur? Bod yn un o 'Charlie's Angels'

Top tip i ddarpar awduron:

Darllenwch, darllenwch, darllenwch